**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025**

Cystadleuaeth 88 – Grŵp Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed

## Ysbryd y Nos, Cleif Harpwood

Pan ddaw lleisiau'r nos i 'mhoeni,
a sibrwd gwag y gwynt i'm hoeri,
ti sy'n lliwio'r blode
a mantell gwlith y bore;
tyrd, Ysbryd y Nos.

A'r tonnau'n llusgo'r cregyn arian
yn siffrwd yn ei lifrai sidan,
mi wn y byddi yno
yn barod i'm cysuro;
tyrd, Ysbryd y Nos.

Pleth dy wallt mewn rhuban euraidd
yn gynnes yn dy olau peraidd,
a bysedd brau y barrug
yn deffro hun y cerrig;
tyrd, Ysbryd y Nos.

Ac yno yn y dyffryn tawel
mi glywaf gân yn sŵn yr awel
a neges hud y geirie
yn hedfan dros y brynie;
tyrd, Ysbryd y Nos.

Ysbryd y Nos, tyrd yma'n awr,
gwasgara'r ofnau cyn daw'r wawr;
diffodd y t'wyllwch, tyrd a'r dydd:
gad im ddod, o'r nos yn rhydd.